

# Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref: Cwestiynau Cyffredin

## Cynnwys

<b>Y pecyn cymorth – cyffredinol</b> .....	2
Pam y dylai fy nghyngor ddefnyddio'r pecyn cymorth? .....	2
Rwy'n glerc, beth yw fy rôl o ran cwblhau'r pecyn cymorth? .....	2
Rwy'n gynghorydd, beth yw fy rôl o ran cwblhau'r pecyn cymorth? .....	2
Pwy sy'n bennaf cyfrifol am gwblhau'r pecyn cymorth? .....	2
Sut mae cael gafael ar yr adnoddau yn y pecyn cymorth? .....	2
Sut mae defnyddio'r pecyn cymorth ar y sgrin? .....	3
A oes rhaid i'r cyngor gwblhau'r pecyn cymorth ar yr un pryd? .....	3
Mae fy nghyngor yn fach iawn, a yw'r pecyn cymorth yn berthnasol i ni? .....	3
A oes fersiwn fyrrach i gynghorau llai? .....	4
A yw'r pecyn cymorth yn creu dyletswyddau neu feichiau ychwanegol i gynghorau cymuned a thref? .....	4
Beth rydym yn ei wneud gyda'n canfyddiadau o ddefnyddio'r pecyn cymorth? .....	4
Ai dim ond unwaith y mae angen defnyddio'r pecyn cymorth neu a ddylai'r cyngor ei adolygu ymhen amser? .....	4
Pam na allwn gael gafael ar rai o'r polisïau, gweithdrefnau a dogfennau y cyfeirir atynt yn y pecyn cymorth? .....	4
Pa gymorth sydd ar gael i'n helpu i gwblhau'r pecyn cymorth? .....	4
Pa gymorth sydd ar gael i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella? .....	5
<b>Y prawf iechyd</b> .....	5
Sut y dylai'r cyngor gwblhau'r prawf iechyd? .....	5
Ai dim ond sicrhau ei fod yn bodloni'r rhwymedigaethau statudol sydd wedi'u harlliwio'n las yn y prawf iechyd y mae angen i'r cyngor ei wneud? .....	5
A all y cyngor ddefnyddio statws Coch, Melyn, Gwyrdd i nodi pa ddatganiadau sydd eisoes yn cael eu bodloni, a'r rhai y mae angen gweithredu arnynt ar unwaith neu yn y tymor canolig? .....	6
<b>Yr hunanasesiad</b> .....	6
Sut y dylai'r cyngor gwblhau'r hunanasesiad? .....	6
Ai cyfrifoldeb y clerc neu'r cynghorwyr yw'r hunanasesiad? .....	6
A oes angen i'r cyngor gynnal yr hunanasesiad mewn cyfarfod cyhoeddus? .....	7

## Y pecyn cymorth – cyffredinol

### Pam y dylai fy nghyngor ddefnyddio'r pecyn cymorth?

Bydd y pecyn cymorth hwn yn helpu eich cyngor mewn sawl ffordd. Bydd yn eich helpu i adolygu'r trefniadau atebolrwydd, llywodraethu a rheolaeth ariannol sydd ar waith gennych er mwyn sicrhau eich bod yn cyflawni eich holl gyfrifoldebau statudol. Y tu hwnt i hyn, bydd yn eich helpu i sicrhau eich bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau i'ch cymuned.

Nid adnodd archwilio mohono, ond bydd yn eich helpu i asesu a yw eich cyngor yn bodloni gofynion statudol penodol y byddai archwilwyr allanol a'r cyhoedd yn disgwyl eu gweld. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cefnogi'r defnydd ohono ar draws y sector i helpu i fynd i'r afael â materion a nodwyd ganddo yn ei adroddiadau er budd y cyhoedd a'i adroddiadau rheolaeth ariannol a llywodraethu blynyddol.

### Rwy'n glerc, beth yw fy rôl o ran cwblhau'r pecyn cymorth?

Fel clerc, byddwch yn cwblhau Rhan 1 – Y prawf iechyd ar y cyd â'r Cadeirydd / Arweinydd. Bydd hyn yn eich helpu i nodi materion a meysydd ar gyfer gweithredu y mae angen i gynghorwyr roi sylw iddynt a gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Byddwch hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran cefnogi cynghorwyr wrth iddynt ymgymryd â'r gwaith myfyrio sy'n ofynnol gan Ran 2 – Yr hunanasesiad.

### Rwy'n gynghorydd, beth yw fy rôl o ran cwblhau'r pecyn cymorth?

Bwriedir i Ran 1 – Y prawf iechyd gael ei chwblhau gan y clerc ar y cyd â'r Cadeirydd / Arweinydd, a dylai'r cynghorwyr gytuno ar y camau gweithredu y dylid eu cymryd o ganlyniad i'r canfyddiadau. Dylai'r cynghorwyr hefyd chwarae rôl weithredol a bod yn bennaf cyfrifol am y gwaith myfyrio sy'n ofynnol gan Ran 2 – Yr hunanasesiad, gan ystyried y materion a phenderfynu ar flaenoriaethau, gyda chymorth y clerc fel y bo'n briodol.

### Pwy sy'n bennaf cyfrifol am gwblhau'r pecyn cymorth?

Yn y pen draw, mae'r cyngor cyfan yn gyfrifol am benderfyniadau mewn perthynas â chwblhau'r pecyn cymorth a'r cynllun gweithredu sy'n deillio ohono. Yn ymarferol, gallai gweithgor o gynghorwyr oruchwylio'r penderfyniadau a wneir gan y cyngor llawn wedyn.

### Sut mae cael gafael ar yr adnoddau yn y pecyn cymorth?

Cliciwch ar unrhyw destun wedi'i danlinellu yn yr adrannau rhagor o wybodaeth i gael gafael ar adnoddau ychwanegol ar y rhyngwrdd. Gallwch naill ai ddal y fysell ctrl ar eich bysellfwrdd i lawr a chlicio'r botwm ar ochr chwith y llygoden, neu ddal y fysell ctrl ar eich bysellfwrdd i lawr a chlicio ar y botwm Enter. Bydd hyn yn agor y dudalen we

berthnasol.

Mae'r pecyn cymorth hefyd yn cyfeirio at rai polisiâu neu astudiaethau achos enghreifftiol a ble i gael gfael ar y rhain. Mae'n bosibl mai dim ond i gynghorau sy'n aelodau o Un Llais Cymru neu Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol y bydd y dogfennau hyn ar gael, ac na fyddwch yn gallu eu gweld yn uniongyrchol o'r pecyn cymorth.

### [Sut mae defnyddio'r pecyn cymorth ar y sgrin?](#)

Gallwch gyrraedd unrhyw ran o'r pecyn cymorth drwy ddefnyddio'r dudalen gynnwys fanwl (tudalen 2) – cliciwch ar deitl yr adran rydych am fynd iddi, daliwch y fysell ctrl i lawr a chliciwch ar y llygoden.

Mae opsiwn 'Dychwelyd i'r brig' ar waelod pob tudalen. Os byddwch yn clicio ar hwn, daliwch y fysell ctrl i lawr a chliciwch ar y llygoden a byddwch yn dychwelyd i'r dudalen gynnwys.

Mae pob tudalen yn y themâu yn Rhan 1 – Y prawf iechyd a Rhan 2 – Yr hunanasesiad yn cynnwys pennawd i ddangos i chi pa thema rydych yn gweithio arni ar hyn o bryd. Mae gan bob thema yn y pecyn cymorth gyfeirnod yn nhrefn yr wyddor, ac mae gan bob datganiad yn y prawf iechyd nod rhifol fel y gellir cyfeirio atynt yn hawdd.

### [A oes rhaid i'r cyngor gwblhau'r pecyn cymorth ar yr un pryd?](#)

Nac oes. Mater i'ch cyngor yw penderfynu sut y byddwch yn cwblhau'r pecyn cymorth.

Efallai y byddwch yn penderfynu cwblhau'r pecyn cymorth cyfan ar yr un pryd. Efallai y byddwch yn penderfynu gweithio drwy bob thema yn Rhan 1 – Y prawf iechyd gyntaf, ac yna weithio drwy bob thema yn Rhan 2 – Yr hunanasesiad. Neu efallai y byddwch yn penderfynu ystyried thema yn y prawf iechyd ac yna ymgymryd â'r gwaith myfyrion manylach ar y thema honno yn yr hunanasesiad yn syth wedyn.

Efallai y byddwch yn penderfynu ystyried y themâu mewn trefn wahanol i'r hyn sydd yn y pecyn cymorth, yn dibynnu ar yr hyn rydych am ei flaenoriaethu.

Efallai y byddai'n fuddiol i chi weithio drwy'r pecyn cymorth dros sawl mis, a dechrau eto ar gylch blynyddol.

### [Mae fy nghyngor yn fach iawn, a yw'r pecyn cymorth yn berthnasol i ni?](#)

Ydy. Mae'r rhwymedigaethau statudol yn y gwiriad iechyd yr un peth ni waeth beth fo maint eich cyngor. Ar gyfer yr eitemau hynny nad ydynt yn statudol, gallwch ddefnyddio'r pecyn cymorth mewn ffordd gymesur ac yn unol ag amgylchiadau eich cyngor. Wrth ystyried yr hunanasesiad, efallai y byddwch yn gweld bod hyn yn cymryd llai o amser na'r disgwyl gan y bydd gennych lai o fanylion i'w hystyried. Bydd

ymatebion cyngorau i faterion a nodwyd gan y pecyn cymorth yn gymesur â maint y cyngor ac amrywiaeth y gweithgareddau sydd ganddo.

### A oes fersiwn fyrrach i gyngorau llai?

Nac oes. Mae'r pecyn cymorth yn berthnasol i bob cyngor, ni waeth beth fo'i faint.

### A yw'r pecyn cymorth yn creu dyletswyddau neu feichiau ychwanegol i gyngorau cymuned a thref?

Nac ydy. Mae'r pecyn cymorth yn cwmpasu'r trefniadau rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a ddylai fod ar waith gan bob cyngor cymuned. Yn benodol, bydd y gwiriad iechyd yn nodi'r cyfrifoldebau y mae'n rhaid i'r cyngor eu cyflawni yn glir. Bydd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cwblhau archwiliad blynyddol y cyngor.

### Beth rydym yn ei wneud gyda'n canfyddiadau o ddefnyddio'r pecyn cymorth?

Dylid ystyried mai dechrau'r broses yw cwblhau'r pecyn cymorth, yn hytrach na bod yn nod ynddo'i hun.

Drwy'r prawf iechyd a'r hunanasesiad sy'n rhan o'r pecyn cymorth, bydd y cyngor yn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Yna gall y cyngor benderfynu beth y bydd yn ei wneud nesaf yn seiliedig ar y dystiolaeth honno. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys dolenni i ragor o wybodaeth, canllawiau a hyfforddiant a fydd yn eich helpu i fynd i'r afael â'r camau gweithredu a nodir gennych.

### Ai dim ond unwaith y mae angen defnyddio'r pecyn cymorth neu a ddylai'r cyngor ei adolygu ymhen amser?

Dylai'r cyngor adolygu'r pecyn cymorth o bryd i'w gilydd ar ôl ei gwblhau am y tro cyntaf, er mwyn nodi lle mae camau gweithredu i wella pethau wedi'u cymryd neu lle mae unrhyw beth wedi newid. Efallai y byddwch yn gweld y byddai hyn yn eitem addas i'w thrafod yn y cyfarfod blynyddol, neu'r cyfarfod ym mis Mehefin i gymeradwyo'r datganiad llywodraethu blynyddol.

### Pam na allwn gael gafael ar rai o'r polisiâu, gweithdrefnau a dogfennau y cyfeirir atynt yn y pecyn cymorth?

Dim ond aelodau o Un Llais Cymru neu Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol a all gael gafael ar rai o'r pethau y cyfeirir atynt yn y pecyn cymorth.

### Pa gymorth sydd ar gael i'n helpu i gwblhau'r pecyn cymorth?

Mae Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol a Llywodraeth Cymru yn awyddus i gefnogi cyngorau i ddefnyddio'r pecyn cymorth yn effeithiol. Hoffem glywed gennych am eich syniadau ar gyfer hyfforddiant neu ganllawiau pellach. Efallai yr hoffech hefyd weithio gyda chynghorau cyfagos i rannu eich profiad o

gwblhau'r pecyn cymorth neu weithio gyda'ch Pwyllgorau Ardal Un Llais Cymru neu rwydweithiau eich cangen o Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

### Pa gymorth sydd ar gael i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella?

Mae llawer o syniadau yn y pecyn cymorth ei hun o ran sut y gallwch fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella. Gall hyn fod yn ddolen i ddogfennau canllaw neu hyfforddiant ar bynciau penodol. Os ydych yn chwilio am hyfforddiant neu ganllawiau penodol ar eitem nad oes cwrs hyfforddi eisoes ar waith ar ei chyfer, cysylltwch â Paul Egan yn Un Llais Cymru ([pegan@onevoicewales.wales](mailto:pegan@onevoicewales.wales)) ar gyfer hyfforddiant i gynghorwyr neu Helen Quick yng Nghymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ([Helen.Quick@slcc.co.uk](mailto:Helen.Quick@slcc.co.uk)) ar gyfer hyfforddiant i glercod.

## Y prawf iechyd

### Sut y dylai'r cyngor gwblhau'r prawf iechyd?

Bwriedir i'r prawf iechyd gael ei gwblhau gan y clerc, gan weithio gyda'r cadeirydd a / neu grŵp bach o gynghorwyr. Mae'r prawf iechyd wedi'i rannu'n bum thema, y gellir gweithio arnynt yn olynol neu yn unol â threfn blaenoriaeth eich cyngor.

Dylech weithio drwy bob datganiad mewn thema, gan roi ateb cadarnhaol os yw'r datganiad yn berthnasol i amgylchiadau eich cyngor neu ateb negyddol os nad yw'r berthnasol. Er enghraifft, os mai *'Mae'r cyngor wedi paratoi adroddiad blynyddol'* yw'r datganiad ac nad yw eich cyngor wedi gwneud hyn, byddech yn rhoi *'Nac ydy'* yn y pecyn cymorth wrth ymyl y datganiad hwnnw.

Nesaf, ysgrifennwch unrhyw sylwadau a champau gweithredu wrth ymyl y datganiad. Yn yr enghraifft a roddwyd yma, os oes adroddiad blynyddol eisoes ar waith, byddai'r cam gweithredu yn rhywbeth tebyg i *'Adroddiad blynyddol ar waith, disgwylir yr adroddiad nesaf...'*. Os nad oes adroddiad blynyddol ar waith, gallwch gofnodi camau gweithredu megis *'darllen y canllawiau ar baratoi adroddiadau blynyddol, adolygu adroddiadau cynghorau eraill, paratoi adroddiad blynyddol i'r cyngor cyfan gyuno arno a'i gyhoeddi'*.

### Ai dim ond sicrhau ei fod yn bodloni'r rhwymedigaethau statudol sydd wedi'u harlliwio'n las yn y prawf iechyd y mae angen i'r cyngor ei wneud?

Mae'r datganiadau sydd wedi'u harlliwio'n las yn y prawf iechyd yn rhwymedigaethau statudol. RHAID i'r cyngor sicrhau bod y pethau hyn ar waith. Mae'r datganiadau eraill yn bwysig hefyd a bydd cyngor effeithiol am gadarnhau bod y pethau hyn ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn gwasanaethu ei gymuned yn y ffordd orau.

A all y cyngor ddefnyddio statws Coch, Melyn, Gwyrdd i nodi pa ddatganiadau sydd eisoes yn cael eu bodloni, a'r rhai y mae angen gweithredu arnynt ar unwaith neu yn y tymor canolig?

Cewch benderfynu defnyddio statws Coch, Melyn, Gwyrdd yn eich cyngor, er enghraifft i helpu i nodi a yw rhywbeth ar waith, heb fod ar waith, neu wedi'i gwblhau yn rhannol. Y cyngor yw prif ddefnyddiwr y prawf iechyd a gall ei deilwra – ond ni ddylid diwygio'r cwestiynau.

## Yr hunanasesiad

[Sut y dylai'r cyngor gwblhau'r hunanasesiad?](#)

Dylai'r cyngorwyr chwarae rôl weithredol a bod yn bennaf cyfrifol am y gwaith myfyrio sy'n ofynnol gan Ran 2 – Yr hunanasesiad, gan ystyried y materion a phenderfynu ar flaenoriaethau, gyda chymorth y clercc fel y bo'n briodol.

Mae'r hunanasesiad wedi'i rannu'n chwe thema, y gellir gweithio arnynt yn olynol neu yn unol â threfn blaenoriaeth eich cyngor. Efallai yr hoffech sefydlu un neu fwy o weithgorau i drafod pob un o'r themâu a'r datganiadau llywodraethu sydd ynddynt (wedi'u lliwio'n llwyd).

Er enghraifft, yn 'Thema A – Gweledigaeth, diben a chynllunio cymunedol', y datganiad llywodraeth yw "Mae gan y cyngor weledigaeth a chynllun clir ar gyfer ei gymuned". Byddai cyngorwyr yn ystyried, ac o bosibl yn dadlau, y datganiad hwn, ar sail y cwestiynau yn y blwch 'Cwestiynau i'w hystyried' yn yr hunanasesiad. Er mwyn eich helpu i ateb y cwestiynau, mae'r pecyn cymorth yn awgrymu rhai ffynonellau tystiolaeth y gallwch eu hystyried i lywio eich asesiad.

Mae adran rhagor o wybodaeth yn yr hunanasesiad yn esbonio cyfrifoldebau cyngorau mewn perthynas â'r thema a'r datganiad, ac yn cynnwys dolenni i ddeddfwriaeth, canllawiau, cymorth a hyfforddiant.

Gall y cyngor grynhoi'r drafodaeth am y datganiad a chofnodi unrhyw gamau gweithredu y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodir wrth drafod.

Gellir cyfeirio penderfyniadau a chymau gweithredu at sylw'r cyngor llawn er mwyn cytuno arnynt.

[Ai cyfrifoldeb y clercc neu'r cyngorwyr yw'r hunanasesiad?](#)

Dylai'r hunanasesiad gael ei arwain gan y cyngorwyr. Bydd gan y clercc rôl hanfodol o ran cefnogi'r cyngorwyr i gynnal yr hunanasesiad, er enghraifft drwy drefnu cyfarfodydd a chofnodi crynodeb o drafodaethau a chymau gweithredu y cytunwyd arnynt.

## A oes angen i'r cyngor gynnal yr hunanasesiad mewn cyfarfod cyhoeddus?

Gellir cynnal trafodaethau ynghylch yr hunanasesiad fel rhan o weithgor, y tu allan i gyfarfod llawn. Gellir wedyn gyflwyno'r argymhellion mewn perthynas â chanfyddiadau a chymau gweithredu i gyfarfod cyngor llawn er mwyn cytuno arnynt. Hefyd, efallai yr hoffech gyhoeddi crynodeb o'r canfyddiadau a'r camau gweithredu rydych yn bwriadu eu cymryd ar eich gwefan a / neu fel rhan o'ch adroddiad blynyddol.